

**YNNI**  
**-Y FARGEN**  
**ORAU**

Adolygiad 2015 / 16

# Pam Ynni – Y Fargen Orau?

Mae Ynni – Y Fargen Orau yn ymgyrch i gleientiaid a ddatblygwyd gan Ofgem a Chyngor ar Bopeth, a'i nod yw helpu cleientiaid ar incymau isel i:

- Leihau eu costau ynni drwy newid tariff, dull talu neu gyflenwr
- Gwybod ble i fynd i gael cymorth os ydynt yn cael anhawster talu biliau ynni
- Arbed arian drwy ddefnyddio llai o ynni yn eu cartrefi.

Rydym yn gwybod bod cleientiaid angen cymorth gyda'u biliau ynni oherwydd:

- Yn 2015, fe wnaeth Cyngor ar Bopeth yng Nghymru a Lloegr helpu pobl â dros 72,000 o broblemau dyledion tanwydd.

## Ydych chi'n gallu gwresogi eich cartref i lefel gysurus yn y gaeaf?

- Dywedodd 70% **Ydw**
- Dywedodd 30% **Nac ydw**
- 19% - **Nac ydw**, dydw i ddim yn defnyddio cymaint ar y gwres ag y byddwn i'n ei hoffi oherwydd y gost
- 11% - **Nac ydw**, allwn i ddim gwresogi digon ar fy nghartref oherwydd ansawdd y deunydd adeiladu neu'r system wresogi

• Rhwng Hydref 2015 ac Ebrill 2016 fe wnaeth bron i 750,000 o bobl edrych ar dudalennau oedd yn ymwneud â phroblemau ynni a sut i arbed arian ar filiau tanwydd ar wefan Cyngor ar Bopeth **[citizensadvice.org.uk](http://citizensadvice.org.uk)**. Bu i fwy na 24,000 o'r bobl hyn edrych ar wybodaeth am broblemau wrth dalu biliau ynni.

• Bu i'r Gwasanaeth Cyngor ar Bopeth yn yr Alban gyngori ar dros 28,500 o faterion ynni yn 2015/16, a oedd yn gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

• Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn amcangyfrif y gallai cartref cyffredin yn y DU arbed hyd at £320 ar eu biliau ynni blyneddol drwy ddefnyddio mesurau effeithlonrwydd ynni.

## Agweddau tuag at filiau tanwydd yn y gaeaf

- 4% Amhosibl ymdopi – rwyf eisoes mewn dyled gyda'm biliau tanwydd.
- 17% Straen ariannol – weithiau mae'n rhaid i mi ddiffodd y gwres neu beidio talu fy

mil ynni fel y gallaf fforddio biliau eraill y cartref.

- 37% Pryder, ond rwy'n gallu ymdopi heb orfod ceisio arbed ar filiau pwysig eraill y cartref.
- 42% Ddim yn broblem.

## Pwy sy'n elwa?

Cynllun ar gyfer cleientiaid ar incymau isel sy'n wynebu'r risg uchaf o dlodi tanwydd yw Ynni – Y Fargen Orau, ond mae hefyd wedi'i anelu at y gweithwyr sy'n eu cefnogi. Mae gan gyrff sy'n darparu sesiynau Ynni – Y Fargen Orau gysylltiadau sydd wedi'u hen sefydlu â chyrrff cymorth lleol eraill a'r gweithwyr a'r gwirfoddolwyr ar y rheng flaen sy'n gweithio gyda phobl sy'n wynebu tlodi tanwydd, neu sydd mewn perygl o'i wynebu. Bydd sesiynau ar gyfer cleientiaid fel arfer yn cael eu cynnal gyda grwpiau sy'n bodoli eisoes, megis grwpiau i'r henoed, tenantiaid, rhieni neu bobl a chanddynt broblemau iechyd.

### Statws cyflogaeth cleientiaid a fynychodd sesiynau yn ystod gaeaf 2015/16:

- 39% wedi ymddeol
- 8% yn gweithio'n llawn-amser
- 11% yn gweithio'n rhan-amser
- 15% yn ddi-waith
- 10% ddim yn gweithio oherwydd anabledd neu salwch tymor hir
- 7% yn ofalwyr

Fe wnaeth dros hanner y cleientiaid roi gwybod i ffrindiau a theulu am rywbeth y gwnaethant ei ddysgu yn y sesiwn Ynni – Y Fargen Orau.

### Canolfan Ynni Cynaliadwy

#### Grwpiau a gefnogir gan Weithwyr Rheng-flaen

Gofynnwyd i weithwyr ar y rheng flaen am y bobl yr oeddent hwy'n eu cyrraedd. Mae'r graff isod yn rhoi manylion y meysydd cyngor a'r grwpiau agored i niwed y rhoddasant gymorth iddynt, a'r meysydd mwyaf oedd Tai, Dyledion, Pobl Hŷn ac Iechyd neu Iechyd Meddwl.

Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) 16%

Gofalwyr 32%

Pobl hŷn 42%

Pobl ifanc 35%

Cyrrff cymunedol 26%

Dyledion a rheoli arian 47%

Anabledd neu anawsterau dysgu 37%  
Cam-drin domestig 31%  
Camddefnyddio cyffuriau neu alcohol 27%  
Ynni 32%  
Grwpiau ffydd 10%  
Iechyd neu iechyd meddwl 42%  
Digartrefedd 40%  
Tai 53%  
Cyfiawnder 17%  
Diweithdra 41%

*Nodyn: bu i lawer o bobl ddewis mwy nag un opsiwn ac felly mae'r cyfanswm yn fwy na 100%*

Dyweddodd 9 o bob 10 gweithiwr ar y rheng flaen eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch helpu eu cleientiaid i ganfod y fargen orau ar gostau ynni ar ôl mynychu sesiwn Ynni – Y Fargen Orau a dywedodd 84% fod y sesiwn wedi newid eu barn am bwysigrwydd tlodi tanwydd i'r bobl y maent yn gweithio gyda hwy.

**Canolfan Ynni Cynaliadwy**

## Beth yw'r Effaith?

Yn ystod gaeaf 2015/16, cafodd cyfanswm o 1,999 o sesiynau Ynni – Y Fargen Orau eu cyflwyno, gan roi hyfforddiant uniongyrchol i 14,153 o gleientiaid a 5,905 o weithwyr rheng-flaen.

Ar sail gwerthusiadau o raglenni gallu ariannol eraill, sy'n dangos bod gweithwyr rheng-flaen yn defnyddio gwybodaeth i helpu 15 cleient, ar gyfartaledd, yn y flwyddyn wedi'r hyfforddiant, mae Cyngor ar Bopeth yn amcangyfrif fod dros **550,000 o gleientiaid wedi elwa o ganlyniad i Ynni – Y Fargen Orau** rhwng 2008 a gwanwyn 2016.

Er mwyn asesu effaith ymgyrch Ynni – Y Fargen Orau 2015/16, fe wnaeth Cyngor ar Bopeth gomisiynu'r Ganolfan Ynni Cynaliadwy i gynnal gwerthusiad annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys casglu gwybodaeth drwy gyfrwng holiadur sy'n cael ei ddsbarthu mewn sesiynau a chynnal cyfweiliadau ansoddol gyda chleientiaid a gweithwyr rheng-flaen. Roedd y cyfweiliadau'n archwilio sut roedd y rhaglen wedi helpu cleientiaid i ddatrys eu materion yn ymwneud ag ynni ac i gyflawni'r newidiadau yr oeddent yn dymuno eu gweld yn sefyllfa ynni eu haelwyd. Roedd y cyfweiliadau â gweithwyr rheng-flaen yn archwilio sut roedd y sesiynau wedi eu helpu yn eu rôl wrth gynghori cleientiaid.

Fe wnaeth sesiynau cynghori Ynni – Y Fargen Orau gyrraedd cyfanswm o 14,153 o gleientiaid ar draws Cymru, Lloegr a'r Alban yn 2015/16. Gofynnwyd i'r holl gleientiaid a fynychodd sesiwn grŵp llenwi holiadur ar ddiwedd y sesiwn.

- Roedd 7,393 o gleientiaid wedi llenwi holiadur erbyn diwedd Ebrill 2016 (cyfradd ymateb o 52%).

Mae'r dyfyniadau canlynol ymhlith y canfyddiadau:

Adroddodd dros hanner y cleientiaid eu bod yn bwriadu edrych am fargen well ar eu hynni o ganlyniad i'r sesiwn Ynni – Y Fargen Orau. Roedd y cleientiaid o'r farn fod y sesiwn ar sut i ganfod y fargen orau a sut i newid cyflenwr ynni yn ddefnyddiol iawn.

Darn allweddol o gyngor a gafodd y cleientiaid o'r sesiwn oedd y dylent nodi eu defnydd ynni ar ffurf oriau cilowat ar y safle cymharu, yn hytrach na'r swm y gwnaethant ei wario. Roedd hyn yn rhoi mwy o hyder iddynt y byddai'r canlyniadau cymharu yn gywir.

I rai cleientiaid, fe dynnodd y sesiwn Ynni – Y Fargen Orau eu sylw at y ffaith y gallai newid i dariff rhatach eu galluogi i fod ar eu hennill ymhen dim o dro – gan arbed arian iddynt â chyn lleied o drafferth â phosibl:

'Wel, doeddwn i ddim hyd yn oed wedi ymchwilio i newid cyflenwr. Roeddwn i'n meddwl y byddai'n llawer o drafferth, ac mewn gwirionedd roedd yn rhwydd iawn.' (Michelle)

Mae cyngor ar newid cyflenwr yn gweithio i rai pobl:

'Ac yn syth fe wnaeth llawer ohonom, gan gynnwys fi, fynd yn ôl at ein darparwyr, gan gysylltu â hwy'n syth, ac fe wnes i newid fy nhariff.' (Rhona)

Ond ddim i bawb:

'Fe wnaethon nhw roi llyfryn i ni yn egluro beth i'w wneud a sut y byddai'n llawer rhatach ei weithio allan a chael dyfynbrisiau ac ati. I fod yn onest, dwi ddim wedi ei wneud eto.' (Mark).

## Lleihau defnydd ynni

'Fel diffodd offer trydanol, os nad wyf yn eu defnyddio, yna eu diffodd, a doeddwn i ddim yn trafferthu gwneud hynny o'r blaen, ond rydw i'n gwneud yn awr. Pethau bach ydyn nhw, wrth gwrs, ond mae'n golygu llawer.'

'Yr hyn wnaeth i fi fynd ar y rhaglen yn y lle cyntaf... oedd y ffaith nad oeddwn i'n gwybod sut i raglennu'r amserydd ar fy moeler. Felly pan ddes i 'nôl, er nad oedden nhw wedi trafod hynny, fe dynnes i e oddi ar y wal a darllen y cyfarwyddiadau a'i ailraglennu.'

'Cael fy ngwresogyddion i lawr ar rywbeth fel 20. Fel arfer roedden nhw ar rywbeth fel 30 gen i... ond gallaf weld y gwahaniaeth o ran hynny yn barod.'

'Wel, roedd y cyfan yn bethau ro'n i'n eu gwybod yn barod, ond roedd pwysleisio eto fod cael llenni yn ogystal â gwydr dwbl yn un da, oherwydd does gen i ddim llenni yn fy lolfa. Oedd, roedd y rhan fwyaf ohono yn synnwyr cyffredin; roeddwn i'n ei wybod yn barod, mewn gwirionedd.'

'Peidio gadael y gwres ymlaen drwy'r nos... Fel fi, rydw i'n gadael y gwres ymlaen, ond yn ei roi ar dymheredd isel, felly dydw i ddim yn ei ddiffodd – fe ddywedodd hi nad yw hynny'n beth da, mae'n rhaid i chi ei ddiffodd, yn enwedig pan ydych chi'n mynd i'r gwely.'

'Yr hyn dwi'n ceisio ei wneud yw gweld ydw i'n gallu arbed mewn wythnos, beth gallaf ei arbed mewn wythnos fy hun – dyna dwi'n ceisio ei wneud, gosod fy nhargedau bach fy hun.'

### **Profiad David o inswleiddio'r atig**

Mae canser ar David ac roedd yn cael trafferth cadw'i gartref yn gynnes gan ddefnyddio gwresogyddion stôr trydan a stof llosgi coed yn y gaeaf. Roedd wedi bod yn cael trafferth canfod adeiladwr lleol a oedd yn fodlon gwneud y gwaith o osod deunydd inswleiddio. Fe wnaeth Cyngor ar Bopeth drefnu popeth iddo, gan gysylltu â'r cyngor, a wnaeth ddarparu'r cyllid, a chontractwr, a wnaeth y gwaith. Sylwodd David ar yr effaith yn syth a chanfu nad oedd angen iddo gynnu'r stof goed mor aml er mwyn cadw'r cartref yn gynnes.

### **Mae'r siart isod yn dangos y camau y dywedodd y cleientiaid y byddent yn eu cymryd o ganlyniad i'r sesiwn:**

Grant Nyth (Cymru), neu'r Fenter Rhaglenni Effeithlonrwydd Ynni yn y Cartref (Yr Alban) 4%

Gwneud cais am ECO (rhwymedigaeth cwmni ynni) 5%

Gwneud cais am y Fargen Werdd 4%

Cael mwy o wybodaeth neu gyngor am rywbeth a drafodwyd yn y cyflwyniad 17%

Gwneud cais am grant am inswleiddio neu wresogi 17%

Gwneud cais am y Disgownt Cartref Cynnes 30%

Dweud wrth rywun am yr hyn rydych wedi'i ddysgu heddiw 52%

Gwneud rhywbeth i arbed ynni gartref 50%

Chwilio am fargen well am eich ynni 67%



# Ynni – Y Fargen Orau Ychwanegol

Yn sgil cyllid ychwanegol dros y 4 blynedd diwethaf, mae canghennau Cyngor ar Bopeth lleol sy'n darparu sesiynau Ynni – Y Fargen Orau wedi gallu cynnig apwyntiadau ychwanegol un-i-un i gleientiaid sy'n mynychu'r sesiynau. Mae'r sesiynau hyn yn caniatáu ar gyfer ymyriad mwy dwys sydd wedi'i deilwra i'r cleient.

**Fe wnaeth canghennau lleol Cyngor ar Bopeth yng Nghymru, Lloegr a'r Alban gynnal cyfanswm o 5,947 o apwyntiadau cynghori ychwanegol Ynni – Y Fargen Orau (*Energy Best Deal Extra (EBDx)*) rhwng Hydref 2015 ac Ebrill 2016.**

- Roedd 1,570\* o gleientiaid ar incwm isel,
- Roedd gan 2,548 o gleientiaid anabledau,
- Roedd 835 o gleientiaid yn ddi-waith,
- Roedd 1,399 o gleientiaid wedi cyrraedd oed pensiwn;
- Roedd 1,064 o aelwydydd yn cynnwys dibynyddion iau nag 14 oed.

\*data'n cyfeirio at Gymru a Lloegr yn unig

**Y gwahaniaeth y mae sesiynau Cyngor ar Bopeth wedi ei wneud i bobl – rhai enghreifftiau o fywyd go iawn**

Adroddodd sawl cleient bod eu hapwyntiad EBDx wedi eu cynorthwyo i drefnu dileu eu dyled, gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol iawn i'w sefyllfa ariannol.

## **Datrys anghydfod â chyflenwr**

Roedd anghydfod parhaus rhwng Paul a'i gyflenwr. Roedd yn talu ei filiau drwy ddebyd uniongyrchol, ond roedd y cyflenwr ynni yn honni bod ganddo ddyled ac roeddent yn bygwth y beili arno ac yn bygwth mynd ag ef i'r llys. Aeth Cyngor ar Bopeth ati i helpu Paul i ddadlau yn erbyn yr honiad gyda'r cyflenwr. Yn y diwedd fe wnaeth y cyflenwr gyfaddef mai eu bai hwy ydoedd, dileu'r ddyled ac anfon llythyr yn cadarnhau hyn.

## **Buddiannau o ran lles**

Fe arbedodd Edith £190 ar ei biliau ynni a dŵr yn dilyn y sesiwn. Canfu fod ei rhagdaliadau yn para'n hirach, ac roedd ganddi fwy o arian yn ei phwrs o ganlyniad.

Gan fod ganddi'r arian ychwanegol hwnnw roedd hi'n gallu mynd allan yn amlach, ac roedd hi'n gallu fforddio gwresogi ei chartref yn y tywydd oer.

'Rwy'n gallu mynd allan o amgylch y lle yn amlach yn awr, ac allwn i ddim gwneud hynny cynt. Er enghraifft, fe es i i Gaerdydd ddoe. Efallai nad yw hynny'n golygu dim i chi, ond mae'n golygu llawer iawn i mi achos doeddwn i ddim wedi bod yng Nghaerdydd ers blynyddoedd. Wyddoch chi, fe fyddwn i yma drwy'r dydd, a fyddwn i ddim yn rhoi'r gwresogydd ymlaen hyd yn hwyr y nos, ond nawr... Wel, a dweud y gwir, mae'r gwresogydd ymlaen gen i yn awr, a fyddwn i ddim fel arfer wedi gwneud hynny ym mis Hydref.'

# Pwy sy'n darparu'r sesiynau?

Yn yr Alban, mae ymgyrch Ynni – Y Fargen Orau yn cael ei chydlynu gan Gyngor ar Bopeth yr Alban ac mae'r sesiynau'n cael eu darparu gan ganghennau lleol Cyngor ar Bopeth.

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r sesiynau'n cael eu darparu trwy gyfrwng y fforymau gallu ariannol. Mae'r fforymau'n cwmpasu holl siroedd Cymru a Lloegr ac maent yn cynnwys cyrff a chanddynt ddiddordeb mewn cynorthwyo pobl i reoli eu harian. Canghennau lleol Cyngor ar Bopeth oedd ychydig dros hanner y 197 o gyrff oedd yn darparu'r sesiynau; roedd y darparwyr eraill yn cynnwys cyrff cynghori annibynnol, darparwyr tai cymdeithasol a chyrrff gwirfoddol megis y rhai sy'n cefnogi pobl mewn ardaloedd gwledig, pobl hŷn a theuluoedd ifanc.

**Ofgem** [ofgem.gov.uk/information-clients](http://ofgem.gov.uk/information-clients)



Ariannwyd **Ynni – Y Fargen Orau** 2015/16 gan EDF Energy; First Utility; ScottishPower; SSE ac Utility Warehouse



**Cyngor ar Bopeth** Dyma enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol Cyngor ar Bopeth yng Nghymru.



**Scottish Association of Citizens Advice Bureaux** – Cyngor ar Bopeth yr Alban (SC016637)



## Gwybodaeth bellach

Am ragor o wybodaeth am Ynni – Y Fargen Orau, gan gynnwys amrywiaeth o adnoddau a'r adroddiad gwerthuso llawn, ewch i wefan Cyngor ar Bopeth [citizensadvice.org.uk/financialskillsforlife](http://citizensadvice.org.uk/financialskillsforlife) (cliciwch ar Our projects>Energy Best Deal)

Gallwch hefyd gysylltu â'r Tîm Ynni i gleientiaid yn Cyngor ar Bopeth:  
energybestdeal@citizensadvice.org.uk

## Arbed arian gydag Ynni – Y Fargen Orau

Mae Susie\* yn un o denantiaid y Gateshead Housing Company, ac mae hi wedi ymdeol. Fe glywodd hi am y sesiwn galw heibio Ynni – Y Fargen Orau oedd yn cael ei chynnal yn ei chanolfan gymunedol leol a phenderfynodd fynd draw i ddysgu mwy.

Doedd Susie erioed wedi newid tariff na chyflenwr tanwydd o'r blaen ac o ganlyniad roedd hi ar y tariff safonol, oedd yn golygu ei bod hi'n talu mwy nag yr oedd angen iddi ei dalu am ei defnydd. Felly roedd hi eisiau darganfod a allai hi arbed arian drwy gael bargaen well.

Cyn dod i'r sesiwn galw heibio doedd Susie ddim yn sylweddoli ei bod yn bosibl iddi newid ei chyflenwr nwy neu drydan, hyd yn oed, felly roedd hi'n falch ei bod wedi canfod ei bod yn gymwys i arbed arian drwy newid.

Bu Susie yn cymharu prisiau ac roedd hi wrth ei bodd pan ganfu y gallai arbed bron £400 y flwyddyn drwy newid, felly dyna'n union wnaeth hi!

Yn ogystal â gallu newid darparwr ac arbed arian, tra oedd hi yn y sesiwn canfu Susie wybodaeth ddefnyddiol arall gan gynnwys gwahanol ffyrdd o dalu am ei hynni a chafodd gyngor ar effeithlonrwydd ynni er mwyn cadw ei chartref yn gynnes.

Meddai Susie, "Rydw i mor falch fy mod i wedi penderfynu mynd i'r sesiwn galw heibio. Roedd y cyngor am ddim a gefais gan Lee a Helen yn ddefnyddiol iawn – a'r peth gorau oll yw fy mod i'n mynd i arbed £383 eleni, a hynny drwy wneud peth mor syml â newid cyflenwr!"

Roedd e mor rhwydd i'w wneud, byddwn i'n argymhell i bawb fynd i'r sesiynau galw heibio yma i weld sut gallant arbed arian."

- newidiwyd yr enwau